

YR ATODLEN

(cyflwynwyd gan adran 88)

MÂN DDIWYGIADAU A DIWYGIADAU CANLYNIADOL

*Deddf Tai 1996 (p.52)*

- 1 Diwygier Deddf Tai 1996 fel a ganlyn.
- 2 Yn nheitl Rhan 1, yn lle “in Wales” rhodder “regulated by the Welsh Ministers”.
- 3 Yn adran 7 o Ddeddf Tai 1996 (rheoleiddio landlordiaid cymdeithasol cofrestredig), ar ôl “dissolution of a registered social landlord.” mewnosoder—  
“Part 3A relates to inspection.”
- 4 Yn y pennawd i adran 34, ar ôl “performance” mewnosoder “– housing in England”.
- 5 Yn adran 34 (safonau perfformiad – tai yn Lloegr), ym mharagraff (a), ar ôl “provision of housing” mewnosoder “in England”.
- 6 Yn y pennawd i adran 36, ar ôl “Ministers” mewnosoder “– housing in England”.
- 7 Yn adran 36 (dyroddi canllawiau gan Weinidogion Cymru – tai yn Lloegr)—
  - (a) yn is-adran (1), ar ôl “housing accommodation” mewnosoder “in England”;
  - (b) hepgorer is-adran (2A).
- 8 Yn adran 37 (pwerau mynediad), yn is-adran (1), ar ôl “in accordance with” mewnosoder “standards set under section 33A or”.
- 9 Yn adran 39 (ansolfedd, etc landlord cymdeithasol cofrestredig: cynllun darpariaethau), ar ôl is-baragraff (1)(b) mewnosoder—  
“(ba) for the appointment of an interim manager during a moratorium (section 43A).”
- 10 Yn adran 46 (penodi rheolwr i weithredu cynigion a gytunwyd), ar ôl is-adran (4) mewnosoder—  
“(4A) The Welsh Ministers may amend or revoke any directions given by them.”
- 11 Yn adran 52 (darpariaethau cyffredinol o ran gorchmynion), yn is-adran (1), ar ôl “39,” mewnosoder “ 50J.”
- 12 Yn adran 64 o Ddeddf Tai 1996 (mynegai o ymadroddion a ddiffinwyd: Rhan 1), yn y manau priodol yn y Tabl mewnosoder—

---

“action	section 63”
---------	-------------

---

“local housing authority	section 230”
--------------------------	--------------

---

“misconduct	section 63”
-------------	-------------

---

“received public assistance	section 58(1A)”
-----------------------------	-----------------

---

“representations	section 63”.
------------------	--------------

---

- 13 Ym mharagraff 5 o Atodlen 1 (cyfyngu ar bŵer i symud person o swydd yn achos elusen gofrestredig)—
- (a) yn is-baragraff (1)—
    - (i) ar ôl “has” mewnosoder “received public assistance.”;
    - (ii) hepgorer y geiriau o “, at any time” hyd at ddiwedd yr is-baragraff;
  - (b) hepgorer is-baragraff (2).
- 14 Ym mharagraff 6 o Atodlen 1 (elusen gofrestredig: pŵer i benodi swyddog newydd), yn is-baragraff (2)(a), yn lle'r geiriau o “financial assistance” hyd at “paragraph 5” rhodder “public assistance”.
- 15 Ym mharagraff 12 o Atodlen 1 (cyfuno a diddymu etc gymdeithas ddiwydiannol a darbodus), yn is-baragraff (6), yn lle “Secretary of State” rhodder “Welsh Ministers”.
- 16 Ym mharagraff 13 o Atodlen 1 (trefniadaeth, ailstrwythuro etc cwmni), yn is-baragraff (7), yn lle “Secretary of State” rhodder “Welsh Ministers”.
- 17 Ym mharagraff 18 o Atodlen 1 (gofynion cyfrifyddu ac archwilio neu gyflwyno adroddiadau ar gyfer elusennau), yn is-baragraff (8), yn lle “Corporation” rhodder “Welsh Ministers”.
- 18 Ym mharagraff 20 o Atodlen 1 (ymchwiliad), yn is-baragraff (1) hepgorer y geiriau o “For this purpose” hyd at ddiwedd y paragraff.
- 19 Ym mharagraff 25 o Atodlen 1 (anghymhwysu rhag bod yn swyddog i landlord cymdeithasol cofrestredig), yn is-baragraff (4), yn lle “Corporation” rhodder “Welsh Ministers”.
- 20 Ym mharagraff 28 o Atodlen 1 (pwerau sydd ar gael mewn perthynas ag elusennau cofrestredig)—
- (a) yn is-baragraff (1)—
    - (i) ar ôl “has” mewnosoder “received public assistance.”;
    - (ii) hepgorer y geiriau o “, at any time” hyd at ddiwedd yr is-baragraff;
  - (b) hepgorer is-baragraff (2).